



Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 F (01970) 626641 E [ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk](mailto:yhmholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk)

1af o Fai, 2020

Annwyl Rieni, Gwarcheidwaid a Disgyblion,

Ar ran staff cyfan yr ysgol, mawr obeithiaf eich bod chi a'ch teuluoedd, fel aelodau o gymuned yr ysgol, yn parhau i gadw'n iach ac yn ddiogel yn ystod yr amgylchiadau eithriadol hyn.

Mae'n gyfnod heriol i bawb. Rydym yn ymwybodol o'r pwysau sydd arnoch fel rhieni a gwarcheidwaid yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r sefyllfa bresennol yn ddi-gynsail ac mae bywyd dyddiol ysgol eich plentyn wedi newid yn llwyr.

Fel staff, rydym yn colli gweld chi, ein disgyblion, bob dydd a bod yn eich cwmni. Ar hyn o bryd, cydnabyddwn nad oes modd i chi ddilyn patrwm dyddiol cyfarwydd, cymdeithasau a chwrdd gyda'ch ffrindiau na chymryd rhan yn eich gweithgareddau hamdden. Er hyn, rydym eisiau i chi wybod ein bod yn falch iawn o bob un ohonoch yn ystod y cyfnod hwn. Er nad ydym yn eich gweld yn ddyddiol yn yr ysgol, rydym ni fel staff ysgol yn parhau i fod yma ar eich cyfer ac yn gefn i chi. Mae croeso i chi gysylltu gyda ni unrhyw bryd gan ddefnyddio'r cyfeiriadau e-bost gofal arweinwyr a lles neu gysylltu gyda'r athrawon pwnc drwy " Show My Homework."

Yr wythnos hon, carwn eich hysbysu o'r isod:

Amodau ar gyfer ail-agor ysgolion

Ar ddydd Llun, Ebrill 27.4.20, cyhoeddodd Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru, Kirsty Williams cynlluniau o ail-agor graddol ysgolion, pan fydd cyngor meddygol pendant fod hynny'n briodol. Mae'r datganiad yn nodi y bydd angen cyfnod cynllunio gofalus cyn y bydd hyn yn medru digwydd, a hynny yn unol â'r canllawiau ymbellhau cymdeithasol.

Wrth gynllunio ar gyfer y cam nesaf ar gyfer ysgolion, mae set o egwyddorion allweddol ar gyfer gwneud penderfyniadau:

- Diogelwch, a lles meddyliol, emosiynol, a chorfforol myfyrwyr a staff
- Cyfraniad parhaus i'r ymdrech a'r strategaeth genedlaethol i frwydro yn erbyn lledaeniad Covid-19
- Hyder rhieni, staff a myfyrwyr – yn seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth – fel y gallant gynllunio ymlaen llaw
- Y gallu i flaenoriaethu dysgwyr ar adegau allweddol, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd difreintiedig
- Cysondeb â fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud penderfyniadau, i sefydlu arweiniad i gefnogi mesurau fel pellhau, rheoli presenoldeb a chamau amddiffyn ehangach.



Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 F (01970) 626641 E ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Carwn bwysleisio nad oes unrhyw ddyddiad am ail-agor graddol wedi cael eu trafod na'u penderfynu eto.

Am wybodaeth bellach parthed cynlluniau Llywodraeth parthed amodau ail-agor ysgolion, gweler y ddogfennaeth isod a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 27.4.2020.

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cynllunio-camau-adfer-yn-sgil-covid-19-galluogi-ysgolion-i-weithredu>

£3m o gyllid ychwanegol i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u 'hallgáu o'r byd digidol'

Mae Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi hyd at £3 miliwn i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u 'hallgáu'n ddigidol' yn ystod pandemig y Coronafeirws. Er mwyn ceisio cynorthwyo'n dysgwyr, mae cynlluniau ar y gweill mewn cydweithrediad â'r Awdurdod Addysg.

A wnewch chi gysylltu gyda mi os gwelwch yn dda, drwy e-bost ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk, erbyn dydd Mawrth 5.5.20, os ydych yn

- deulu sydd heb ddyfais addas er mwyn cael mynediad i ddysgu o bell
- deulu sydd yn rhannu dyfais rhwng 4/5 yn y teulu
- teulu sydd heb unrhyw fynediad at wifi.

Canllawiau COVID-19 i rieni a gofalwyr i gefnogi teuluoedd i aros yn ddiogel, yn iach ac i ddal ati i ddysgu

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r cyngor defnyddiol isod i rieni a gofalwyr o ran hyrwyddo dysgu yn y cartref.

<https://llyw.cymru/canllawiau-covid-19-i-rieni-gofalwyr-i-gefnogi-teuluoedd-i-aros-yn-ddiogel-yn-iach-ac-i-ddal-ati-i>

Dysgu o Bell - Newidiadau i'r amserlen yn sgil adborth rhieni a staff o'r 4.5.20 ymlaen (wythnos 1)

Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gwblhau'r holiadur am ein darpariaeth dysgu o bell.

Rydym wedi ystyried eich barn a barn y staff ac wedi addasu amserlenni'r dysgwyr o ran dysgu o bell ar gyfer pob cyfnod allweddol. O ganlyniad, rydym wedi lleihau nifer y tasgau a gyflwynir mewn wythnos. Credwn fod yr addasiad yn gosod trefn fwy realistig o'r hyn sydd yn bosib i'r dysgwyr gyflawni gan fod pob unigolyn yn gweithio ar wahanol gyflymder ac yn canfod agweddau tasgau yn hawdd neu'n anodd.



Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 F (01970) 626641 E ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Bydd tasgau'r wythnos ar gael yn ddwyieithog ar " Show My Homework" erbyn 9:30yb bore Llun. Rhydd hyn gyfle i chi fel rhieni a gwarcheidwaid ddylunio amserlen sy'n gyraeddadwyi chi yn ôl trefn arferol eich teulu/cartref, gan sicrhau bod digon o amser i ddysgwyr gwblhau ymarfer corff yn ogystal â chael amser cymdeithasol a hamdden. Rydym eisiau i bob dysgwr wneud eu gorau o ran cwblhau'r gwaith, ond hefyd nid ydym eisiau i neb bryderu. Cydnabyddwn ei bod hi'n sefyllfa anodd i nifer ohonoch chi.

Os ydych mewn sefyllfa eich bod angen mwy o dasgau i'ch plentyn gwblhau, mae BBC Bitesize newydd gyflwyno gweithgareddau dyddiol mewn amrywiol bynciau ar gyfer dysgwyr CA3 ac mae gweithgareddau Bitesize eisoes yn bodoli ar gyfer dysgwyr CA4. Ceir hefyd ddeunyddiau ar Hwb ar gyfer dysgu o bell.

<https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/>
<https://www.bbc.co.uk/bitesize/dailylessons>
<https://www.bbc.co.uk/bitesize/levels/z4kw2hv>
<https://www.bbc.co.uk/bitesize/levels/z98jmp3>

Hoffwn nodi bod y cyfnod o ddysgu o bell yn newydd i bawb. Cadarnhaf, yn dilyn eich adborth, y byddwn yn parhau i ddatblygu ein darpariaeth dysgu o bell mewn partneriaeth gyda'r Awdurdod Lleol. Byddaf yn eich hysbysu o'r datblygiadau hyn yn y bwletinau wythnosol.

Gweler isod yr amserlenni newydd fydd ar waith o ddydd Llun ymlaen:

Argymhelliad o amserlen wythnosol i CA3 (gall dysgwyr CA4 addasu ar gyfer eu 14/15 o dasgau)

Llun	Mawrth /	Mercher	Iau	Gwener
Bore 2 dasg	Bore 1 dasg	Bore 2 dasg	Bore 1 dasg	Bore 1 dasg
Prynhawn 1 dasg	Prynhawn 1 dasg	Prynhawn 1 dasg	Prynhawn 1 dasg	Prynhawn 1 dasg

Rhieni / Gofalwyr

Holwn i chi annog eich plentyn i ddilyn y cynllun wythnosol ar gyfer dysgu yn ogystal ag ymarfer corff, amser cymdeithasol a hamdden, mae croeso i chi gysylltu yn nôl yr arfer am unrhyw wybodaeth pellach.



Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
 T (01970) 639499 F (01970) 626641 E ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

		CA3 / KS3 (BI 7, 8 a 9)															
		Craidd / Core				All-graidd / Non-core											
		Mathemateg Mathematics	Gwyddoniaeth Science	Saesneg English	Cymraeg Welsh	Addysg Gorfforol Physical Education	TGCH ICT	Celf Art	Cerdd Music	DT	Bwyd a Maeth Food and nutrition	Dearyddiaeth Geography	Addysg Greyddol Religious Education	Hanes History	Ffrangeg French	Sgiliau Skills	Cyfanswm tasgau Total of tasks
Wythnos 1		2	1	2	1	1	1	1			1	1			1		12
Wythnos 2		1	2	1	2	1			1	1			1	1		1	12

Bydd y pynciau craidd yn gosod 3 tasg y pythefnos, a'r pynciau all-graidd yn gosod 1 tasg y pythefnos. Mae'r drefn uchod yn nodi pa bynciau sy'n gosod y tasgau i'r wythnos benodol.

		CA4 /KS4 (BI 10)									
		Craidd / Core					Opsionau / Options				
		Mathemateg Mathematics	Gwyddoniaeth Science	Saesneg English	Cymraeg Welsh	Y Fagloriaeth The Baccalaureate	Chwaraeon Games	Opsion 1 Option 1	Opsion 2 Option 2	Opsion 3 Option 3	Cyfanswm Total
Wythnos 1		2	2	2	2	1	1	1	2	1	14
Wythnos 2		2	2	2	2	1	1	2	1	2	15

O1	Add Gorff / PE	Hanes / History	TGCH / ICT	Cerdd / Music	Bwyd a Maeth Food and Nutrition
O2	Celf / Art	Amaeth Agriculture	Dearyddiaeth Geography	DT	Ffrangeg French
O3	Gwydd Triphlyg Triple science	Gofaint Blacksmithing	Iechyd a Gofal Health and Social	Add Gref / RE	Busnes Business

Bydd y pynciau craidd yn gosod 4 tasg y pythefnos, a'r pynciau opsiynol yn gosod 3 tasg y pythefnos. Bydd y fagloriaeth yn gosod 2 dasg y pythefnos.

		CA 5 / KS5 (BI 12)					
		Pwnc 1 Subject 1	Pwnc 2 Subject 2	Pwnc 3 Subject 3	Pwnc 4 Subject 4 (os yn berthnasol)	Y Fagloriaeth The Baccalaureate	Cyfanswm Total
Wythnos 1		3	3	3	3	2	11
Wythnos 2		3	3	3	3	2	11

Bydd 6 tasg yn cael ei osod bob pythefnos gan y pynciau, gyda 4 tasg yn cael ei osod i'r Fagloriaeth bob pythefnos.



Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 F (01970) 626641 E ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Opsiynau TGAU ar gyfer dysgwyr blwyddyn 9 - Diweddariad

Byddwn yn rhannu'r opsiynau a'r colofnau dewis ar gyfer TGAU gyda rhieni, gwarcheidwaid a dysgwyr blwyddyn 9 yr wythnos nesaf. Cychwynnir dysgu cyrsiau blwyddyn 10 i flwyddyn 9 wedi'r Sulgwyn.

Dychwelyd i'r Chweched Dosbarth

Diolchwn i'r dysgwyr hynny sydd wedi dychwelyd eu dewisiadau ar gyfer y Chweched. Mae llais ein dysgwyr yn bwysig i ni. Yr wythnos nesaf byddwn yn rhannu holiadur gyda dysgwyr blwyddyn 11 presennol yn holi eu barn am y ddarpariaeth ôl-16 ac yn ceisio cysylltu yn unigol â dysgwyr sydd ddim yn siŵr o'u cynlluniau. Dilynwch gyfrif Twitter y Chweched ar [@6edPenweddig](https://twitter.com/@6edPenweddig) am y newyddion diweddaraf.

Gŵyl y Banc Calan Mai, 8.5.20

Gair i'ch atgoffa ei fod yn Wyl y Banc, Calan Mai ar ddydd Gwener, 8fed o Fai ac felly ni fydd tasgau yn cael eu gosod ar gyfer y diwrnod hwn. Sicrhewch eich bod yn cael amser i wneud gweithgareddau fel teulu a mwynhewch gwmni eich gilydd

Byddwch yn derbyn gohebiaeth bellach gennyf ddydd Iau nesaf er mwyn eich hysbysu a'ch diweddarau o unrhyw newyddion a newidiadau i'r drefn. Mae croeso i chi hefyd f'ebostio drwy ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk

Mae'r cyfnod hwn yn un pryderus i bawb. Mae iechyd a lles pob un sydd yn perthyn i deulu'r ysgol yn flaenoriaeth.

Cadwch yn ddiogel a chymerwch ofal.

Yn ddiffuant,

Rhian Morgan
Pennaeth Dros-Dro